# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**2 GORFFENNAF 2019**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd F. Akhtar (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.L. Davies, D.C. Evans, R.E. Evans, S.J.G. Gilasbey, B.W. Jones, S. Matthews, H.B. Shepardson, G.B. Thomas ac A Vaughan Owen.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd S.M. Allen - yn lle'r Cynghorydd W.R.A. Davies.
Y Cynghorydd L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai;
Y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth;
Y Cynghorydd L.M. Stephens, Dirprwy Arweinydd y Cyngor.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
I. Jones, Pennaeth Hamdden;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth;
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd;
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd;
R.M. Davies, Arweinydd Darparu Rhagor o Dai;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin: - 10:00yb - 11:05yb**

## 1. PENODI CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN DDINESIG 2019/20

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd F. Akhtar yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20.**

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr C.A. Davies, W.R.A. Davies a H.I. Jones.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 5. ADEILADU MWY O DAI CYNGOR - EIN HUCHELGAIS A'N CYNLLUN GWEITHREDU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnwys cynllun trawsnewidiol 'Adeiladu mwy o Dai Cyngor - Ein Huchelgais a'n Cynllun Gweithredu' a oedd â'r nod o ddarparu dros 900 o dai Cyngor newydd dros y 10 mlynedd nesaf.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ac argymhellion arfaethedig mewn perthynas â'r canlynol:

- ble a phryd y byddai'r tai'n cael eu hadeiladu;
- yr adnoddau sydd ar gael a'r modelau darparu fyddai'n cael eu defnyddio;
- sut y byddai blaenoriaethau adfywio ehangach ledled y sir yn cael eu cefnogi;
- sut y byddid yn manteisio ar gyfleoedd newydd wrth iddynt godi.

Byddai'r cynllun gweithredu yn arwain at y cynnydd mwyaf yn nifer y tai Cyngor yn y sir ers y 1970au ac yn dychwelyd y stoc dai i'r lefelau a welwyd ddiwethaf yn y 1990au.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod darparu mwy o dai fforddiadwy yn flaenoriaeth strategol allweddol i'r Cyngor sy'n rhan o weledigaeth pum mlynedd i gynyddu'r cyflenwed o dai fforddiadwy. Yn 2016, dechreuodd y Cyngor ar ei rhaglen fuddsoddi uchelgeisiol 10 mlynedd i ddarparu dros 1000 o dai fforddiadwy ychwanegol ledled y Sir. Mae'r Cyngor bellach yn ei bedwaredd blwyddyn o ddarparu'r tai fforddiadwy, ac roedd y tair blynedd gyntaf yn llwyddiannus iawn gan fod bron 700 o dai wedi'u hadeiladu ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 1000 o dai fforddiadwy.

Nododd yr Aelodau fod rhaglen ddatblygu'r Cyngor wedi'i llunio gan ddefnyddio strwythur camau darparu a oedd yn dangos pryd y byddai'r tai'n cael eu hadeiladu. Roedd hyn yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys yr amserlenni tebygol o ran cyflawni'r rhaglen, sy'n cynnwys tri cham blaenoriaeth, a ddisgrifiwyd yn Nhabl 1 yr adroddiad.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- O ran maint y tai newydd, dywedwyd bod y tai Cyngor yn y gorffennol yn gadarn, wedi'u hadeiladu'n dda â gardd o faint da. O gymharu â hynny, mynegwyd pryder y byddai'r tai newydd yn cael eu hadeiladu'n rhy agos at ei gilydd â gerddi llai o faint. Dywedodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel y byddai'r tai newydd yn cael eu dylunio'n benodol i gynnwys digon o le ar gyfer cartref gydol oes. Yn ogystal, er mwyn diogelu'r tai at y dyfodol, byddent yn cydymffurfio â'r safonau o ran lle a fyddai felly'n sicrhau eu bod yn addas at y diben.

- Dywedwyd y byddai'n fuddiol i'r aelodau gael dadansoddiad o'r meysydd datblygu mewn perthynas â'r amrywiaeth fesul ward. Cytunodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel y byddai'n anfon neges e-bost at yr holl aelodau i gynnwys manylion ynghylch y gweithgarwch o ran tai fforddiadwy fesul ward.

- Mynegwyd pryderon ynghylch nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cael eu cyflwyno'n gyson er mwyn cadw'r caniatâd i adeiladu ar y tir heb fod unrhyw waith yn mynd yn ei flaen. Roedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn cydnabod y pryderon, gan ddweud bod trafodaethau ar waith o ran y posibilrwydd o gyfyngu ar nifer y ceisiadau ar gyfer un safle. Cynigiodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel rannu diweddariad ynghylch canlyniadau'r trafodaethau â'r Pwyllgor drwy neges e-bost.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell i'r Bwrdd Gweithredol:**

**5.1 ailgadarnhau'r egwyddorion cyflawni allweddol ar gyfer rhaglen adeiladu tai newydd y Cyngor, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy llwyddiannus;**

**5.2 cytuno ar yr ystod o fodelau darparu a fydd yn cael eu defnyddio i adeiladu dros 900 o dai Cyngor newydd, gan ein galluogi i gynnig amrywiaeth o ddewisiadau tai mewn gwahanol ardaloedd o'r Sir;**

**5.3 cadarnhau y bydd y tai Cyngor newydd yn cael eu darparu drwy ddefnyddio'r ardaloedd gweithredu tai fforddiadwy sy'n rhan o'r Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy;**

**5.4 cytuno ar strwythur y bandiau blaenoriaeth a ddefnyddir i bennu pryd bydd y safleoedd adeiladu newydd yn cael eu datblygu;**

**5.5 y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer symud datblygiadau o Gam B a Cham C i Gam A a**

**5.6. cytuno ar y rhaglen cyflawni am y tair blynedd gyntaf ar gyfer adeiladu tai Cyngor newydd yn y Sir, gan fuddsoddi dros £53m a darparu dros 300 o dai Cyngor newydd**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2018/19

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer 2018/19, a luniwyd yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o berfformiad 2018/19 a chynnydd pob un o'r 15 Amcan Llesiant. Canolbwyntiodd yr aelodau ar yr adrannau canlynol yn y ddogfen gan fod y rheiny'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu - Cymunedau:

- Rhagarweiniad
- **AMCAN LLESIANT 2**. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw
- **AMCAN LLESIANT 5**. Trechu Tlodi
- **AMCAN LLESIANT 6**. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir
- **AMCAN LLESIANT 7**. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael
- **AMCAN LLESIANT 8**. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)
- **AMCAN LLESIANT 14**. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
- Atodiadau

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at dudalen grynhoi'r Mesurau Llwyddiant Allweddol. Dywedwyd bod defnyddio gwepluniau'n amhriodol i nodi llwyddiant rhai o'r mesurau. Cytunodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth a dywedodd y byddai'n chwilio am symbol mwy priodol i ddangos y llwyddiant drwy'r ddogfen.

- Yn dilyn nifer o sylwadau ynghylch y targedau, roedd yr Aelodau o'r farn bod angen i'r targedau fod yn fwy realistig neu'n dryloyw pe byddai tuedd yn cael ei nodi mewn perthynas â diffyg gwelliant bob blwyddyn. Roedd y Pennaeth Hamdden yn cydnabod bod rhai o'r targedau'n uchelgeisiol a bod cynnydd rhai o'r mesurau heb ddatblygu llawer ac efallai y bydd yn cymryd amser ychwanegol i gyflawni gwelliannau.

- O ran y graff yn Amcan Llesiant 9, a ddangosai 'canran y bobl sy'n teimlo bod ganddynt ymdeimlad o gymuned'. Mynegwyd canmoliaeth gan mai Sir Gaerfyrddin yw'r 4ydd uchaf o flwyddyn i flwyddyn o ran y % newid, ar ôl lleihau o 73% yn 2014/15 i 47.4%. Dywedodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth fod y llwyddiant oherwydd bod y Tasglu Gwledig yn monitro cymunedau gwledig, a oedd yn gweithio ar ffyrdd i wella cynhwysiant cymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithio.

  Dywedwyd y byddai'r argymhellion o'r adolygiad Gorchwyl a Gorffen ynghylch Unigrwydd yn cyfrannu at Amcan Llesiant 9. Yn ogystal, dywedodd aelod fod grant o'r gronfa effeithlonrwydd o hyd at £5k ar gael. Fodd bynnag, gan fod y grant hwn yn boblogaidd, cynghorir bod cais yn cael ei gyflwyno'n gyflym. Roedd y Pennaeth Hamdden yn cytuno ac yn cydnabod mor bwysig oedd i Gynghorwyr a Swyddogion fanteisio ar unrhyw gynlluniau sydd ar gael iddynt.

- Mewn ymateb i ymholiad mewn perthynas â'r Caffi a'r Maes Carafanau ym Mharc Gwledig Pen-bre, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod y ddigwyddiadau uchel eu proffil niferus wedi bod o fudd i'r ardal ac y byddai'r Caffi'n gwneud gwahaniaeth mawr i'r hyn a gynigir yn y parc. Roedd rhai problemau cychwynnol o ran y system rhwystr newydd yn y maes parcio ac yn y cyfamser, er mwyn cynorthwyo ag unrhyw faterion a sicrhau bod ceir yn gallu dod i mewn a gadael yn hwylus, roedd staff yn gweithio ger y rhwystr ar adegau prysur, ac roedd system intercom ar waith ar adegau eraill.

- Dywedwyd y gallai Cyngor Sir Caerfyrddin gael budd o ailgyflwyno hawlenni pysgota, gan fanteisio ar asedau'r cyngor ledled y sir. Yn ogystal, awgrymwyd y gallai'r Cyngor achub ar y cyfle hwn heb lawer o ymdrech na chostau.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyllido, dywedodd y Pennaeth Hamdden nad oedd hwn wedi bod yn faes ffocws i'r adran dros y blynyddoedd diweddaf, ond cytunodd y gellid archwilio a datblygu'r maes hwn. Ychwanegodd y Pennaeth Hamdden efallai ei bod yn golygu defnyddio'r adnoddau a'r partneriaethau presennol, cymaint â chyllido buddsoddiad yn y lle cyntaf. Byddai angen i'r gwaith cychwynnol gael ei gyflawni ar y cyd ag asiantaethau, cyrff llywodraethu, busnesau a chlybiau lleol allweddol er mwyn llunio cynllun cydlynol ar gyfer cydlynu adnoddau o'r fath.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 ofyn i'r Pennaeth Hamdden ystyried y posibilrwydd o gynnal cyfarfod ag asiantaethau allweddol i ystyried y posibilrwydd o hyrwyddo cyfleoedd pysgota ledled y sir.**

**6.2 ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2018/19.**

## 7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr eglurhad a roddwyd dros beidio â chyflwyno adroddiad craffu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad nad oedd wedi'i gyflwyno.**

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD derbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 3 Hydref 2019.**

## 9. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9FED MAI, 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu - Cymunedau a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019 gan eu bod yn gywir.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**